

Canllawiau i Gleifion

Oramorph (Morffin hylifol) i'w ddefnyddio ar gyfer diffyg anadl

Pam ei fod yn cael ei ddefnyddio?

Defnyddiwyd Oramorph fel triniaeth ar gyfer diffyg anadl am nifer o flynyddoedd a phrofwyd ei fod yn effeithlon ac yn ddiogel.

Ydy ocsigen yn driniaeth ar gyfer diffyg anadl?

Nac ydy, defnyddir ocsigen i gywiro lefelau ocsigen isel a lleihau'r straen ar eich calon a'ch ysgyfaint. Gallwch chi gael lefel ocsigen normal a dioddef gan ddiffyg anadl. Dyna'r rheswm pam ein bod yn defnyddio triniaethau eraill ar gyfer diffyg anadl fel oramorph.

Beth yw Oramorph?

Oramorph yw math hylifol o forffin sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i leddfu poen. Mewn dosys bychain defnyddir oramorph i leddfu diffyg anadl tymor hir neu gronig.

A fydd yn helpu?

Mae cleifion wedi dweud wrthym eu bod yn ei gael yn ddefnyddiol i leddfu eu diffyg anadl. Dywed nifer ei fod wedi'u galluogi i gysgu'n well ac i ymdopi'n well gyda gweithgareddau bob dydd. Y pethau y mae cleifion wedi'u dweud wrthym yw:-

- Cefais y noson orau o gwsg ers blynyddoedd
- Mae wedi helpu gyda fy mywyd bob dydd
- Roedd fy niwrnod yn llawer haws

Sut mae'n gweithio?

Mae Oramorph yn gweithio'n gyflym i leddfu'r teimlad o ddiffyg anadl ac nid yw'n aros yn eich system. Byddwch yn cael dos fechan o oramorph pedair gwaith y dydd i ddechrau ac os bydd hwn fel petai'n eich helpu, gellir cynyddu'r ddos yn raddol. Gallwch hefyd gymryd dosys ychwanegol pan fyddwch chi'n dioddef gan ddiffyg anadl neu cyn gwneud gweithgareddau y gwyddoch fydd yn gwneud eich anadl yn brin.

Beth yw'r sgil effeithiau posibl?

Fel gyda phob meddyginiaeth, mae'n bosibl y bydd sgil effeithiau a all gynnwys:-

- Rhwymedd – dyna'r rheswm y byddwch chi'n cael presgripsiwn ar gyfer moddion ysgafn i weithio'r corff tra'n cymryd oramorph.
- Cosi ar y croen (ysgafn)
- Syrthni (anghyffredin); os byddwch chi'n teimlo'n swrth, mae'n bwysig nad ydych chi'n gyrru.
- Mae'r cosi a'r syrthni fel arfer yn diflannu dros amser ac oherwydd defnydd parhaus o oramorph.

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl yn bryderus am y syniad o ddefnyddio morffin am nifer o resymau:

- Mae'n bosibl y bydd rhai pobl yn cydnabod hwn fel meddyginiaeth a ddefnyddir ar gyfer poen gan gynnwys rhywun sy'n dioddef gan ganser neu sy'n marw. Yn sicr nid dyma pam mae oramorph yn cael ei ddefnyddio ar gyfer diffyg anadl.
- Mae'n bosibl y bydd rhai pobl yn meddwl y bydd defnyddio morffin yn eich gwneud yn ddibynnol. Nid yw'r ychydig morffin a ddefnyddir i drin diffyg anadl, yn achosi dibyniaeth. Gellir diddyfnu ac atal oramorph yn ddiogel os na fydd o fudd i chi neu os na fyddwch ei angen bellach.
- Mae'n bosibl y byddwch chi'n sylwi fod y daflen wybodaeth yn y pecyn yn cynnwys rhybudd sy'n nodi ei bod yn beryglus cymryd oramorph pan fydd gennych gyflwr diffyg anadl. Problem bosibl yw hon dim ond os ydych angen cymryd dosys mawr i drin poen. Nid yw Oramorph yn beryglus yn y dosys bychain rydyn ni'n eu rhagnodi ar gyfer trin diffyg anadl.

Beth sy'n digwydd os na fydd yr oramorph yn gweithio i fi?

Mae'n bwysig rhoi gwybod i'ch meddyg os na fydd yr oramorph yn helpu. Efallai y byddwch chi angen dos fwy yn rheolaidd neu gall meddyginiaethau eraill helpu. Mae pawb yn wahanol ac yn aml mae'n achos o ddarganfod yr hyn sy'n gweddu orau i chi.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**